

Adroddiad

# EGLWYS ANNIBYNNOL

## MYNYDD SEION

### CASNEWYDD

2010

**Gweinidog:** Y Parchedig Allan Pickard

**Diacon Anrhydeddus:** Mr W J Jones

**Cyfeilyddion:**

Mrs Avril Pickard  
Mrs Enid Thomas  
Mrs Elan Griffith  
Mrs Elin Maher  
Mrs Vivien Lee  
Dr Sian Machado

**Archwilwyr y Flwyddyn 2009:**

Mrs Siân Martin  
Mrs Mair Hunt

**Athrawon yr Ysgol Sul:** Mrs S Howley, Mrs E Maher, Mr D Hunt, Miss E Howley.

**Plant a Phobl Ieuanc yr Ysgol Sul:** Celyn ac Elinor Hunt, Rhys, Ioan ac Efa Maher, Ffion, Catrin a Lowri Hodder, Erin Haf Thomas, Efa Haf Thomas, Bethan Machado, Steffan Howley.

**Myfyrwyr Ysgol Uwchradd :** Rhian Evans

**Myfyrwyr Addysg Uwch :** Catrin Machado, Rhodri Howley, Huw a Rhys Evans, Wil a Nia Statham.

Nifer yr Aelodau ar ddiwedd 2010: 42

### **Y Pwyllgor Gwaith**

Y Gweinidog  
Ysgrifennydd: Olwen Allender  
Trysorydd: Marian Price-Thomas  
Is-drysorydd: Siân Howley  
Cynrychiolydd yr Ymddiriedolwyr: Derec Jones  
Cynrychiolydd Cyfreithiol : Geraint Price Thomas  
Ysgrifennydd y Pulpud: Elin Maher  
Tîm Addoli: Elin Maher a Siân Howley  
Yr Adeiladau: Derek Jones ac Alun Thomas  
Y Ddolen: Allan Pickard  
Cynrychiolwyr:

- Pwyllgor Codi Arian: Vivien Lee
- Yr Ifanc: Elinor Howley

### **Y Cyngor**

Aelodau'r Pwyllgor Gwaith +  
Yr Ysgrifennydd Ariannol: Griff Williams.  
Is-ysgrifennydd Ariannol: Dafydd Hunt  
Y Cymundeb: Mair Hunt  
Yr Ysgol Sul: Siân Howley  
Trefnydd cyfeilyddion: Siân Machado  
Cynrychiolydd y Cyfundeb: Elin Maher  
Y Genhadaeth: Sally Hughes  
Masnach Deg: Elen Statham  
Prif Stiward: Geraint Price-Thomas  
Diacon Anrhydeddus: W John Jones (m)  
Grwp Addoli: Gareth Watkins

Daeth blwyddyn arall i ben ac o am flwyddyn! Blwyddyn o ddathlu, o golli ac o ddiolchgarwch am wasanaeth ac arweiniad mewn ffydd.

Hon oedd y flwyddyn y dathlom ein penbwydd yn 175 mlwydd oed! Ac fe gawsom ddathliadau hollol wych a bendithiol on' do fe! Bron i fis cyfan o weithgareddau amrywiol o'r ddarlith hanesyddol, a'r llyfr hanes i'r bore agored, y blodau lliwgar wedi'u trefnu'n feistrolgar, y gyngerdd wych ac wrth gwrs y Meseia ar y nos Sul. Bendith fawr oedd y gwasanaeth ar y bore Sul a braf oedd cael cwmni y llu cyfeillion a'n teulu estynedig i rannu'r achlysur arbennig hwn. Ac wrth gwrs y rap! Pwy allai ei anghofio! Roedd yn ddathliad werth chweil ac yn dipyn o her i bawb i'w drefnu. Diolch i chi bob un a fu wrthi'n ddiwyd. Roedd gan bawb ei ran ac fe gawsom amser bythgofiadwy.

Colled fawr i ni fel eglwys eleni wrth gwrs oedd marwolaeth John Jones, Basaleg. Aelod, diacon a chyfaill ffyddlon iawn. Er nad oedd John wedi medru dod atom i'r oedfaon ers tipyn oherwydd afiechyd, roedd yntau yn agos iawn i'n meddyliau ar foreau Sul a ninnau yntau. Diolch i chi i gyd am eich gofal o John. Dwi'n siwr ei fod yntau a Ron wedi gwerthfawrogi eich gofal ohonno ar hyd yr amser. Colled arall i ni oedd marwolaeth ein chwaer annwyl Winn Banfield. Cofiw'n ag atgofion melys amdani hithau a'i theulu yn ogystal. Bydd cyfraniad y ddau at waith yr eglwys yn aros am byth.

Gyda dathliadau'r penblwydd yn 175 a'r tywydd gaeafol a gawsom ddiwedd ein blwyddyn a'n gorfodwyd i ni ohirio ein gwasanaeth Nadolig ar noswyl y Nadolig, daeth diwedd annisgwyl i'n blwyddyn ac hefyd ar gyfnod ein gweinidog gyda ni. Ond, cawsom gyfle yn y flwyddyn newydd i ddiolch i'n gweinidog y Parch Allan Pickard mewn ennyd anrhegu arbennig A phwy allai anghofio'r cinio arbennig yng Nghlwb Golff y Parc.

Ydy, mae wedi bod yn flwyddyn llawn cyffro, dagrau, chwerthin a chyfeillgarwch - y cyfan gyda'n ffydd yn ein Duw ac yn Iesu Grist yn ganolbwynt ac yn wraidd i'r cwbl.

Ac i Allan, Avril a'r bechgyn - mae'n dyled yn fawr i chi bob un. Mae cyfraniad Allan i'n hysgogi i feddwl ac i herio ein ffydd wedi bod yn hwb aruthrol i ni yma. Mor fendithiol y bu ein gwasanaethau Plygain ar noswyliau 'Dolig, ein sesiynnau meddylgar dros y Grawys a'r Pasg; mor angerddol bu galwad Allan arnom i gefnogi elusennau megis Cymorth Cristnogol, Wola Nani a llu o rhai eraill; mor ddirdynnol oedd ei adroddiadau wedi ei daith i Israel a Phalesteina ac mor hollol ddiymhongar oedd ei ymateb i ddiolch, i werthfawrogiad ac i ganmoliaeth ei braidd. Braf fydd croesawu'r teulu yn ôl wrth gwrs ond mae yna fwllch... Heb orffen ar nodyn rhy ddigalon, rhaid i ni gofio geiriau Allan hefyd i symud ymlaen! Un o'r pethau a ddysgodd Allan i ni yn ystod ei ddegawd a mwy o'i weinidogaeth oedd bod angen i ni symud gyda'r oes a herio'r drefn. A dyma ni wedi sefydlu patrwm newydd gyda chymorth Rhaglen Datblygu Undeb yr Annibynnwyr. Fel arweinyddion rydyn ni'n barod am yr her ac yn ddiolchgar am y gefnogaeth, yr hyder a'r ffydd. Mae'n amser anodd i eglwysi o bob math yn ein Cymdeithas heddiw. Daw'r gwahaniaeth yn amlwg pan mae'r drysau ar agor i newid, pan mae calonnau ar agor i adnewyddu a phan mae neges cariad Duw yn amlwg yng ngwynbebau ac yn ngwaith y gweithwyr - ni, pob wan jac!

Mae geiriau Pryderi Llwyd Jones yn emyn 801 yn dweud y cyfan ond mae pennill 4 yn benodol yn taro deuddeg:

Wnei di blygu'n wylaidd iawn  
pan ddaw fy ngalwad i?

Wnei di ildio pob rhyw ofn yn ymyl Calfari?

Fydd dy ffydd yn mentro byw

i gyfannu dynol-ryw,

teulu dyn yn deulu Duw,

yn un - tydi a mi?

Diolch i bawb am bob menter, am bob cyfeillgarwch ac am fod yn rhan o deulu'r ffydd ym Mynydd Seion, Casnewydd.

Elin, Siân a Gareth.